

# Cymru

## Uchafbwyntiau 2021/22

Am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2022

---

## Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol a'r hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, tebyg i adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil.

Mae ein buddiannau yn cynnwys ynni adnewyddadwy, ein gweithgaredd mwyaf sylweddol yng Nghymru, pibelli olew a nwy, cloddio am agregau morol a cheblau telegyfathrebu a phŵer. Rydym hefyd yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth a gwelyau afonydd llanw, sy'n cynnwys nifer o borthladdoedd, tebyg i borthladd prysur ac aml-swyddogaeth Aberdaugleddau yn Sir Benfro, a gwahanol farinas. Yn y mewndir, rydym yn berchen dros 50,000 erw o dir uchel a thir comin, sydd yn bennaf yn dir pori bras.

### Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Ystâd y Goron yn cydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid wrth gyflenwi ein strategaeth yng Nghymru gan weithio mewn partneriaeth i gyflawni blaenoriaethau a gaiff eu rhannu. Rydym yn gwerthfawrogi yn neilltuoel i berthynas gynhyrchiol gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn arbennig mewn materion strategol ynni a morol.

Cafodd rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt Alltraeth ei lansio'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n rhaglen bartneriaeth flaengar a arweinir gennym, sy'n dod â 27 sefydliad o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ynghyd i

gydweithio ar genhadaeth gyffredin, sy'n seiliedig ar yr angen i ddeall yn well a goresgyn effeithiau amgylcheddol cronrus gwynt ar y môr a'i effeithiau ar ddefnyddwyr y môr a chymunedau ar y tir mawr.

I roi trosolwg a chyfeiriad rydym wedi sefydlu grŵp llywio rhaglen yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae aelodau'n rhoi eu harbenigedd ac adnoddau i ddynodi, cefnogi a chyflenwi prosiectau ymchwil a data strategol. Mae Ystâd y Goron wedi ymrwymo buddsoddiad 'sbardun' o £50 miliwn i'r gronfa a chyflwyno rhaglen pum mlynedd. Dros y cyfnod, bydd y prosiectau ymchwil a data yma yn rhoi gwybodaeth hanfodol i helpu cefnogi defnydd cynaliadwy o wynt ar y môr gan hefyd gefnogi moroedd glân, iach, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi ei gwaith ar weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Cymerwn ran yn y broses drwy gymryd rhan yn y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a chyfrannu at gasglu tystiolaeth, er enghraifft drwy ddatblygu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol a Chanllawiau Lleoliad Sector.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgorau a grwpiau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Gweithredu ac Ymgynghori Morol Cymru a'i Is-grŵp Adferiad Glas a'r Grŵp Llywio Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Gwarchoddedig Morol i sicrhau dull gweithredu cydlynol a rhannu gwybodaeth ar draws y gofod morol.

## Rhannu gwybodaeth

Y Gyfnewidfa Data Morol (MDE) yw'r storfa ddata gyntaf o'i bath sy'n cynnwys casgliad mwyaf y byd o ddata, ymchwil a thystiolaeth arolygon y diwydiant ar y môr. Wedi ei adeiladu yn 2013 a'i ail-lansio yn 2021, mae'r Gyfnewidfa yn dal data arolwg ar y môr a gasglwyd gan ein cwsmeriaid drwy gydol cylch oes eu prosiectau, yn ogystal ag ymchwil newydd sy'n llenwi bylchau mewn tystiolaeth. Mae gan y Gyfnewidfa 16 terabeit o ddata arolygon ar y môr a gasglwyd yn nyfroedd Cymru o 1956 ymlaen, yn cynnwys amrywiaeth o ymgyrchoedd arolwg, yn cynnwys monitro amgylcheddol, ymchwiliad safle a data meteorolegol, o sectorau tebyg i wynt alltraeth, ffrwd llanw ac agregau morol. Mae 65% o'r data hwn ar gael i'r cyhoedd, a gall defnyddwyr lawrlwytho a defnyddio'r data yn rhwydd. Drwy ddarparu'r cyfoeth data hwn sydd ar gael yn rhad ac am ddim anelwn roi mantais werthfawr i brosiectau ar y môr yn y Deyrnas Unedig, gan helpu'r rhai sy'n gysylltiedig i wneud penderfyniadau gwybodus, seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy gwely môr y Deyrnas Unedig a diogelu'r amgylchedd morol. Mae'r Gyfnewidfa Data Morol ar gael ar-lein yn: [www.marinedataexchange.co.uk](http://www.marinedataexchange.co.uk).

Wrth i'r sector ar y môr barhau i dyfu, mae'n bwysig sicrhau y caiff ymchwil a rhannu gwybodaeth ar ynni môr ei gydlynu i helpu adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Ynghyd â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid

eraill y diwydiant, rydym yn parhau i gefnogi Rhaglen ar y Cyd y Diwydiant Ffynonellau Adnewyddadwy ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni Môr. Daw hyn â'r diwydiant, rheoleiddwyr, ymchwilwyr a chyllidwyr ynghyd fel y gellir risgiau caniatâd y sector mewn modd strategol a chydlynol. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod gwaith ORJIP ar gyfer Ynni Môr yn cefnogi ac yn bwydo i weithgaredd sydd â ffocws ar Gymru i drin bylchau mewn tystiolaeth a heriau caniatâd sy'n wynebu'r sector yng Nghymru.

## Cefnogi Twf y Sector Ynni Adnewyddadwy

### Gwynt Alltraeth

Yn ystod 2021/22, ar draws ein daliadau gwely môr (o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), cynyddodd capasiti gweithredol cronuss yn y sector gwynt alltraeth o 9.61GW i 10.78GW (cynydd o 1.17GW).

Yn dilyn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun ar gyfer cyfle Estyniadau 2017 ar draws 2019, symudodd bron 3GW o brosiectau newydd ar draws dyfroedd Cymru a Lloegr ymlaen i ddyfarnu hawliau gwely môr, wrth ochr y ffermydd gwynt oedd eisoes yn gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys yr estyniad arfaethedig i Gwynt y Môr, a elwir yn Awel y Môr. Unwaith y caiff ganiatâd, galla'r estyniad ddarparu hyd at 576MW o gapasiti, wrth ymyl y prosiect presennol.

Gallwch ddarllen mwy am sector gwynt alltraeth y Deyrnas Unedig yn ein Hadroddiad Gweithredol Gwynt Alltraeth ar-lein yn: [www.thecrownestate.co.uk/media/4095/2021-offshore-wind-report.pdf](http://www.thecrownestate.co.uk/media/4095/2021-offshore-wind-report.pdf)

### Rownd 4 Prydlesu Gwynt Alltraeth

Yn 2021, yn dilyn proses dendro cystadleuol, cafodd chwe phrosiect newydd arfaethedig ar gyfer gwynt alltraeth yn y dyfroedd o amgylch Cymru a Lloegr eu cyflwyno drwy Rownd 4 Prydlesu Gwynt Alltraeth (Rownd 4). Gyda'i gilydd, mae'r chwe phrosiect Rownd 4 yn ffurfio ychydig dan 8 GW o gapasiti newydd posibl ar gyfer gwynt alltraeth gyda chyfle i ddarparu trydan glân ar gyfer mwy na saith miliwn o gartrefi. Mae un o'r chwe phrosiect a ddewiswyd ger arfordir Gogledd Cymru i'r Gogledd Ddwyrain o Ynys Môn. Mae'r cynigydd llwyddiannus yn gonsortiw m o EnBW a BP ac mae gan y prosiect gapasiti posibl o 1,500 MW. Byddai hyn yn rhoi digon o bŵer i ddiwallu anghenion trydan tua 1.4 miliwn o gartrefi a sicrhau gostyngiad o hyd at 2,344,176 tonnell fetriig y flwyddyn mewn allyriadau CO2.

Fel gyda phob cynllun neu brosiect perthnasol, mae gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Ar gyfer datblygiadau gwynt alltraeth, mae hyn yn gam pwysig wrth asesu unrhyw effeithiau posibl ar y rhwydwaith o ardaloedd gwarchoddedig sy'n cynnwys rhai o rywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr y Deyrnas Unedig. Ym mis Ebrill 2022, ar ôl cwblhau ein gwaith ar yr Asesiadau lefel cynllun, fe wnaethom hysbysu Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru am ein bwriad i symud pob un o'r chwe phrosiect ymlaen i gam nesaf y broses brydlesu - dyfarniad Cytundeb ar gyfer Prydles - ar sail rhanddirymiad. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad ac ym mis Gorffennaf 2022, cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y gall Ystâd y Goron symud ymlaen gyda chynllun Cylch 4 Prydlesu Gwynt Alltraeth.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar Rownd 4 ar gael ar-lein yn: [thecrownestate.co.uk/round-4/](https://thecrownestate.co.uk/round-4/)

### Gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd

Yn hydref 2020 fe wnaethom ddyfarnu hawliau ar gyfer prosiect arddangos gwynt arnofiol 100MW arfaethedig Erebus, a ddatblygwyd gan Blue Gem wind. Wedi'i leoli 45km i'r de orllewin o Sir Benfro, mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda gyda chynllunio a dylunio peirianeg.

Ym mis Gorffennaf 2021 cafodd prosiectau Profi ac Arddangos Llŷr 1, Llŷr 2 a White Cross, yn cynnwys tri safle 100MW ar wahân yn y Môr Celtaidd yn agos at Dde Cymru, y golau gwyrdd i symud ymlaen i gam Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun o'r broses brydlesu.

Mae'r prosiectau yn profi technolegau sylfaen ac angori newydd, gan ddefnyddio cynlluniau, deunyddiau a dulliau adeiladu newydd a allai fod â rhan bwysig mewn cefnogi datblygiad a momentwm y gadwyn gyflenwi ranbarthol, gan helpu i gefnogi swyddi newydd, sgiliau a thwf economaidd.

Bydd y clwstwr o brosiectau Profi ac Arddangos gwynt arnofiol yn un o'r pwysicaf yn y byd ac mae prosiectau fel y rhain yn gam hanfodol tuag at yr uchelgais o ddatblygu gwynt arnofiol ar lefel fasnachol.

I gefnogi datblygu'r sector gwynt arnofiol alltraeth ymhellach tu hwnt i'r raddfa Profi ac Arddangos, ym mis Tachwedd 2021 cyflwynodd Ystâd y Goron ei huchelgais i ddatgloi 4GW o gapasiti gwynt arnofiol newydd yn y Môr Celtaidd erbyn 2035. Rydym wedi parhau i ymgysylltu gyda'r farchnad a rhanddeiliaid ar ein cynlluniau ac ym mis Chwefror 2022 fe wnaethom gynnal gweithdy gyda dros 70 o randdeiliaid statudol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn rhan

hanfodol o sicrhau fod ein dull o brydlesu yn gwarchod, a lle'n bosibl, yn cyfoethogi cynefinoedd amgylchedd arfordirol a morol.

Byddwn yn tendro prosiectau a all gael eu datblygu mewn dull mewn camau. Bwriad hyn yw rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi a hwyluso cydlynu cefnogi seilwaith a chymunedau. Rydym yn ymroddedig i weithio gyda ac wrth ochr rhanddeiliaid eraill i adeiladu cadwyn gyflenwi gryf yng Nghymru ac yn ymchwilio'r opsiynau i helpu ysgogi buddsoddiad.

Mae mwy o wybodaeth ar wynt arnofiol alltraeth ar gael yn: [www.thecrownestate.co.uk/en-gb/what-we-do/on-the-seabed/floating-offshore-wind/](http://www.thecrownestate.co.uk/en-gb/what-we-do/on-the-seabed/floating-offshore-wind/)

### **Tonnau a llanw**

Mae gan Gymru botensial sylweddol ar gyfer ynni tonnau a llanw a rydym yn parhau i fod â rôl yn cefnogi'r sector hwn drwy ymgysylltu gyda Gweithgor Ynni Morol Cymru, fforymau'r diwydiant tebyg i Weithgor Ynni Morol Cymru, Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatâd Llywodraeth Cymru a thrwy drafodaethau gyda'n cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid am y safleoedd y dyfarnwyd prydles iddynt ar eu cyfer a chynlluniau datblygu.

I gefnogi'r sector yn y cyfnod datblygu cynnar a chaniatâd, rydym wedi ymrwymo £1.2 miliwn i Safle Arddangos Morlais ger Ynys Môn, mewn cytundeb ariannu ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru. Mae ein buddsoddiad yn cefnogi'r rhaglen monitro a lliniaru amgylcheddol (EMMP), cam hanfodol wrth ddiogelu'r amgylchedd morol a galluogi'r prosiect i symud ymlaen. Caiff yr holl ddata a gesglir fel rhan o EMMP ei rannu gyda'n Cyfnewidfa Data Morol a bydd ar gael i'r cyhoedd er budd y sector a llawer o ddefnyddwyr morol eraill. Mae hyn

yn gam pwysig wrth drin bylchau sylweddol mewn tystiolaeth a heriau caniatâd sy'n wynebu'r sector llanw, ac mae ffurfio Grŵp Ymgynghorol, yr ydym yn aelod ohono, i lywio gwaith EMMP yn enghraifft o weithio ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus, academia a'r diwydiant ffrwd llanw.

### **Gweithio gyda'r Gymuned Arfordirol**

Gan adeiladu ar sylfeini Prosiect Morwellt Dale a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe, rydym wedi rhoi hawliau i Brifysgol Abertawe am saith safle arbrofol arall i adfer morwellt o amgylch Cymru. Rhagwelir y bydd y data gwybodaeth a gesglir a'r gwersi a ddysgwyd o'r safleoedd arbrofol yn arwain at ardaloedd helaeth o adfer morwellt yn rhoi buddion amgylcheddol yn cynnwys cynefinoedd morol ac atafaelu carbon.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi trwyddedau lluosog ar gyfer cynlluniau dyframaeth, yn cynnwys safle tair hectar yn Swnt Dewi i Câr-y-Môr, Cymdeithas Budd Cymunedol. Mae'r Gymdeithas yn gobeithio paratoi'r ffordd ar gyfer dyframaeth masnachol cynaliadwy a chyfeillgar i'r amgylchedd, a gwella'r amgylchedd arfordirol ar gyfer llesiant y gymuned leol. Mae Câr-y-Môr yn ymarfer ffermio dim mewnbwn (peidio defnyddio unrhyw wrtaith, chwynladdwr na dŵr croyw) ac yn gobeithio agor ffermydd eraill yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi cytuno ar y cyntaf o'r hyn y rhagwelwn fydd yn un o lawer drwyddedau sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Doc Penfro, sy'n anelu i sefydlu canolfan gyda'r gorau yn y byd ar gyfer ynni morol a pheirianeg a chynyddu cynhyrchu ynni glân a gwyrrd yn y Deyrnas Unedig.

## **Agregau morol**

Ystâd y Goron sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd pwysig i Gymru, gan gyfrif am tua 80% o werthiannau tywod a gro yn Ne Cymru.

Yn 2021, bu cynnydd bach yng nghyfanswm y tunelli metrig yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru i 699,674 tonnall fetrig, i gyd wedi eu codi o ddyfroedd Cymru. Codwyd cyfanswm o 1,573,590 tonnall fetrig o ddyfroedd Cymru, cynnydd o 14% ar y flwyddyn flaenorol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dendro hawliau unigryw yn rheolaidd i ymrwymo i Gytundeb Ymchwilio ac Opsiynau ar gyfer agregau morol, cynhaliwyd tendr yn 2021 i helpu sicrhau cyflenwad y dyfodol o'r elfen hollbwysig yma o ddeunyddiau ar gyfer y sector adeiladu ac i gefnogi prosiectau amddiffyn ar addasu arfordirol, yn cynnwys gwrthsefyll newid hinsawdd.

Yn 2018 fe wnaethom gyflwyno ein System Monitro Electronig (EMS) cenedlaeth nesaf ar fflyd treillio agregau morol y Deyrnas Unedig. Buom yn datblygu'r system hon ymhellach i greu fersiwn arbennig ar gyfer y fflyd treillio contract nad yw'n rheolaidd, a anelwyd at brosiectau addasu arfordirol unigol megis adlenwi traethau a threillio cyfalaf. Defnyddiwyd y system ym mhrosiect adlenwi traeth Bae Colwyn i hwyluso monitro treillwyr sy'n gweithredu ar drwyddedau agregau morol ar sail ad-hoc, dros dro pan mae'n anymarferol i ffio'r system arferol, a bydd yn ein galluogi i sicrhau fod yr holl weithgaredd treillio yn ein dyfroedd yn parhau i gael eu gwneud mewn modd cyfrifol a chydymffurfiol.

## **Cymryd rôl arweiniol mewn stiwardio'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth**

Mae Ystâd y Goron yn awdurdod cymwys ar gyfer dibenion y Rheoliadau Cynefinoedd. Dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae'n ofynnol i awdurdodau cymwys weithredu eu swyddogaethau i'r graddau y maent yn berthnasol i gadwraeth natur, yn cynnwys cadwraeth morol, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun/Asesiad Priodol ar gyfer ein cynlluniau prydesu lle maent yn debygol o gael effaith sylweddol, naill ai ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau neu brosiectau arall, ar safleoedd gwarchoddedig dynodedig cadwraeth natur, sy'n ffurfio Rhwydwaith Cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Felly byddai hyn yn weithredol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd RAMSAR. Defnyddir y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i sicrhau y caiff cynlluniau (neu brosiectau) perthnasol a allai effeithio ar safle gwarchoddedig eu hasesu. Dim ond os y caiff amodau llym eu bodloni y gall cynllun neu brosiect fynd yn ei flaen i osgoi (neu mewn amgylchiadau eithriadol, wneud iawn am) effeithiau niweidiol i nodweddion diddordeb arbennig y safleoedd gwarchoddedig hyn.

Yn ogystal â'n hystyriaethau lefel cynllun, rydym yn darparu trwyddedu ar gyfer gwaith adfer gwymon yng Nghymru gyda 10 safle yn awr â thrwydded. Rydym hefyd wedi rhoi trwyddedau i Câr-y-Môr a nodir uchod ar gyfer prosiectau dyframaeth yn Swnt Dewi.

---

**Mwy o wybodaeth**  
[thecrownestate.co.uk/annual-report-2022](https://thecrownestate.co.uk/annual-report-2022)

## Social media

---

Twitter: [\*\*@TheCrownEstate\*\*](#)  
LinkedIn: [\*\*The Crown Estate\*\*](#)  
Instagram: [\*\*@thecrownestate\*\*](#)

---

[www.thecrownestate.co.uk](http://www.thecrownestate.co.uk)